

PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd TRWY GYNHADLEDD FIDEO ddydd Mercher, 6 Hydref 2021 am 9.30am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Ellie Chard, Ann Davies, Peter Evans, Alan Hughes, Brian Jones, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Christine Marston, Melvyn Mile, Bob Murray, Paul Penlington, Pete Prendergast, Peter Scott, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Joe Welch (Cadeirydd), Emrys Wynne a Mark Young

Arsyllwyr – Y Cynghorwyr Alan James, Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies a'r Cynghorydd Barry Mellor.

HEFYD YN BRESENNOL

Arweinydd Tîm – Tîm Lleuedd (TD); Rheolwr Rheoli Datblygu (PM); Swyddog Cynllunio (PG), Rheolwr Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (AL), Swyddog Cynllunio (KB), Gwesteivr Zoom a Gweddarlledu (SJ), a Gweinyddwr Pwyllgor (RTJ)

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Merfyn Parry.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Cafwyd datganiadau o gysylltiad oddi wrth:

Datganodd y Cynghorydd Christine Marston gysylltiad personol ag eitem rhif 5 ar y rhaglen, oherwydd ei bod yn adnabod yr ymgeisydd.

Datganodd y Cynghorydd Tina Jones gysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn eitem 9 ar y rhaglen, gan ei bod wedi cyflwyno darn o dir ar gyfer y CDLI.

Datganodd y Cynghorydd Ann Davies gysylltiad personol yn eitem rhif 7 ar y rhaglen, gan fod ganddi deulu yn gweithio yn Ysbyty Glan Clwyd.

Datganodd y Cynghorwyr Brian Jones ac Ellie Chard, ill dau gysylltiad personol yn eitem rhif 7 ar y rhaglen gan fod y ddau ohonyn nhw'n gleifion mewn meddygfa yn y Rhyl gyda chysylltiadau â'r datblygiad.

Datganodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies gysylltiad personol yn eitem rhif 8 ar y rhaglen, gan ei bod yn adnabod tiffeddianwyr a allai o bosibl gael eu heffeithio gan y datblygiad arfaethedig.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 8 Medi 2021.

Cywirdeb -

Amlygodd y Cynghorydd Emrys Wynne, o fewn y datganiadau o gysylltiad, nad oedd agosrwydd y datblygiad yn cael ei gyfleu'n iawn, gan fod ei eiddo gefn wrth gefn gyda'r cais.

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Medi 2021 fel cofnod cywir.

5 CAIS RHIF 40/2021/0309 - LLAIN C7, PARC BUSNES LLANELWY, LLANELWY

Cyflwynwyd cais ar gyfer codi Cartref Gofal Cofrestredig 198 gwely (Defnydd Dosbarth C2), tirlunio, cyfleusterau parcio a gwaith cysylltiedig (Ailgyflwyno) ar Lain C7, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy.

Siaradwr Cyhoeddus –

Mr Dylan Southern (O Blaid) - diolchodd i'r cadeirydd a'r aelodau am gael caniatâd i siarad. Dywedodd Mr Southern fod yn rhaid i ni ofyn i ni'n hunain fel pobl â chydwybod a wnaethom ni erioed fwriadu i bolisi cynllunio ganiatáu strwythur cartref gofal anaddas yn y sir. Roedd hyn yn caniatáu i bobl hŷn ddibynnol rannu amwynderau gyda nifer o bobl eraill ar adegau bregus iawn. Dywedodd bod mwy na 50% o breswylwyr cartrefi gofal yn byw mewn ystafell lai na 12m² ar hyn o bryd a gyda rhai lloriau heb lifftiau hygrych, ac eto fel sir gwariwyd £58 miliwn o arian cyhoeddus bob blwyddyn ar y strwythur gofal hwn nad oedd yn ateb y gofyn.

Cyfeiriodd Mr Southern at y safle, o ran mwynderau bu sylwadau y gallai rhai pobl deimlo'n ynysig oherwydd lleoliad y safle. Byddai'r mwyafrif o bobl a fyddai'n defnyddio'r safle mewn cyfnod lle byddai hunanofal yn dod yn llai tebygol, felly byddai'r tebygolrwydd o fod angen siopau cyfagos yn lleihau. Fodd bynnag, byddai gan y safle fynediad at fand eang cyflym iawn ac roedd yn agos at Ysbyty Glan Clwyd. Roedd y rhain yn ffactorau allweddol ar gyfer dewis safle.

Sicrhodd Mr Southern y pwyllgor y byddai'r asesiad sŵn yn cydymffurfio â safonau adeiladu ac y byddai'r gwres canolog a'r aerdymheru yn creu llif digonol o aer. Byddai'r sŵn hefyd yn cael ei fonitro'n rheolaidd.

Dywedodd Mr Southern na ellid cytuno ar ddatrysiad peirianyddol i fynd i'r afael â thymheredd yr adeilad a'r ffenestri.

Roedd Mr Southern yn deall bod gan y pwyllgor benderfyniad anodd gan mai argymhelliad y swyddogion oedd gwrthod ochr yn ochr â'r canllawiau polisi cynllunio, ond roedd Mr Southern yn teimlo nad bwriad polisi cynllunio byth oedd i

fod yn niweidiol tuag at breswylwyr. Yn olaf, gofynnwyd i'r pwyllgor roi llais i bobl fregus a chaniatáu'r cais.

Trafodaeth Gyffredinol –

Cynghorodd swyddogion yr aelodau ar gefndir y cais, gan ei fod yn ailgyflwyniad, gwrthodwyd y safle yn flaenorol. Roedd y safle o fewn ardal dynodi CDLI parc busnes Llanelwy. Roedd yr ardal yn bennaf ar gyfer adeiladau B1, roedd yn safle cyflogaeth wedi'i ddyrannu.

- Ailgyflwynwyd y cais oherwydd gwaith helaeth ar y cais ar ran yr ymgeisydd. Roedd y gwaith ychwanegol wedi nodi nad oedd unrhyw safle addas arall ar gyfer y datblygiad arfaethedig. Fodd bynnag, roedd y safle y cynigiwyd ei ddatblygu ar safle a ddynodwyd yn dir cyflogaeth, wedi bod ar werth ers sawl blwyddyn ac nid oedd unrhyw ddatblygwyr â diddordeb ar gyfer y tir.
- Amlygodd swyddogion hefyd fod pryderon ynghylch sŵn ar y safle oherwydd agosrwydd safle B2 diwydiannol a chefnffordd yr A55. Byddai'r pryderon hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r datblygiad fod â ffenestri na ellir eu hagor, ac nid oedd hwn yn ddefnydd cydnaws ag adeilad dosbarth C2.

Dywedodd y Cynghorydd Ann Davies fod cau'r Royal Alexander wedi achosi blocio gwelyau yng Nglan Clwyd. Mae gofal gartref wedi gweithio'n dda i bobl sydd â'r anghenion gofal lleiaf posibl ond mae'r anghenion gofalu wedi cynyddu'n sylweddol. Byddai'r cais yn rhyddhau gwelyau yng Nglan Clwyd ac yn caniatáu i bobl ddewis eu gofal.

Cynnig - Cynigodd y Cynghorydd Ann Davies, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Brian Jones, y dylid cymeradwyo'r cais yn groes i argymhellion y swyddogion.

Dywedodd y Cynghorydd Joan Butterfield fod newid i'r ddemograffeg yn y Sir, bod y boblogaeth yn heneiddio. Roedd angen edrych ar ofynion y gymuned, roedd pobl yn cael eu cadw yn yr ysbyty ac mae angen gofal strwythuredig ar bobl, i'w hail-alluogi i fynd adref. Byddai'r cais hwn yn lliniaru 'blocio gwelyau' roedd y cynllun busnes yn ymddangos yn gadarn, ac roedd gan y darparwyr hyder y byddai'r cynllun yn gweithio.

Holodd y pwyllgor faint o bwysau a roddwyd ar ddefnyddio tir yn y CDLI wrth bennu rhinweddau'r cais. Codwyd pryderon gyda'r ffenestri hefyd, ac a fyddai gan yr adeilad gylchrediad digonol o aer.

Dywedodd swyddogion y byddai'r ffenestri'n cael eu hadeiladu i sicrhau na fyddent yn agor i gydymffurfio â llygredd sŵn, felly dim ond ar gyfer goleuni y byddent yn cael eu defnyddio. Roedd y safle'n safle cyflogaeth dynodedig ond ni fu unrhyw ddiddordeb yn y safle ers blynyddoedd lawer.

Hysbysodd swyddogion y pwyllgor, pe bai'r cais yn cael ei ganiatáu, y byddai angen amodau ynghlwm wrth y datblygiad i fynd i'r afael â'r materion arfaethedig sy'n ymwneud â lleoliad a sŵn yn ogystal ag awyru, gan ddefnyddio amodau i liniaru a

rheoli'r mater hwnnw. Teimlwyd oherwydd diddordeb y pwyllgor y byddai'r mater yn dod yn ôl i'r pwyllgor am benderfyniad o ran amodau.

Croesawodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau y diddordeb yn y ddarpariaeth ar gyfer angen gan gefnogi argymhelliad y swyddog i wrthod yn llwyr. Dywedodd nad oedd y cynnig yn darparu lefelau priodol o amwynderau. Defnyddiwyd y safle ar gyfer pobl ag anghenion gofal isel. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod canllawiau ar gyfer awyru ac agor ffenestri, nad oedd y cais yn cydymffurfio â nhw. Nid oedd y trafodaethau emosiynol ar angen yn faterion cynllunio perthnasol. Ar hyn o bryd roedd 100 o welyau ar gael i'r rhai sydd ei angen yn Sir Ddinbych. Ar hyn o bryd roedd gorddarpariaeth o ofal, gyda phrinder staff ar gael ledled y wlad.

Eglurodd y Cynghorydd Brian Jones mai'r rhesymau dros roi caniatâd oedd nad oedd yr agosrwydd at gefnffordd yr A55 a safle B2 yn berthnasol, gan nad oedd lliniaru sŵn yn broblem, gan y gellid ei oresgyn trwy amodau cynllunio.

PLEIDLAIS -
Cymeradwyo - 13
Ymatal – 0
Yn erbyn – 2

PENDERFYNWYD y dylid **CYMERADWYO'R** cais yn groes i argymhellion am y rhesymau a nodir uchod.

6 CAIS RHIF 20/2021/0637 - CLOVER BANK, LLANFAIR DYFFRYN CLWYD, RHUTHUN

Cyflwynwyd cais i amrywio amod 2 caniatâd cynllunio cod 20/2018/0448 i amrywio'r rhestr o gynlluniau cymeradwy i ganiatáu manylion dylunio a mynediad diwygiedig yn nhir yn Clover Bank, Llanfair Dyffryn Clwyd, Rhuthun.

Trafodaeth Gyffredinol –

Amlygodd y Cynghorydd Emrys Wynne i'r aelodau fod y cais o flaen y pwyllgor oherwydd pryderon a godwyd gan y Cyngor Cymuned, gan eu bod o'r farn bod y newidiadau yn sylweddol.

Ymatebodd swyddogion cynllunio bod y mater wedi'i godi gan y Cyngor Cymuned, ond roedd y manylion yn yr adroddiad yn amlinellu'r newidiadau i'r caniatâd cynllunio, ac roedd swyddogion o'r farn nad oedd yr amrywiadau hyn yn sylweddol, felly derbyniwyd cais adran 73 i amrywio'r dyluniad (yn hytrach na gofyn am gais cynllunio cwbl ffres) a'r argymhelliad i ganiatáu.

Cynnig – Cynigodd y Cynghorydd Christine Marston, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Ellie Chard, y dylid cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y swyddog fel y nodir yn yr adroddiad.

Pleidlais -
O blaid – 13

Ymatal – 2
Yn erbyn – 0

PENDERFYNWYD y dylid **CYMERADWYO'R** cais yn unol ag argymhellion y swyddog fel y nodwyd yn yr adroddiad a'r papurau ategol.

7 CAIS RHIF 22/2021/0754 - GLASFRYN, GELLIFOR, RHUTHUN

Cyflwynwyd cais ar gyfer adeiladu 1 annedd, adeiladu mynediad newydd i gerbydau a gwaith cysylltiedig ar dir ger Glasfryn, Gellifor, Rhuthun. <0}

Cynnig - Cynigodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill y dylid cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y swyddogion, eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Joan Butterfield.

Pleidlais -
O blaid – 15
Ymatal – 0
Yn erbyn – 0

PENDERFYNWYD y dylid **CYMERADWYO'R** cais yn unol ag argymhellion y swyddog fel y nodwyd yn yr adroddiad a'r papurau ategol.

8 FFERM WYNT AR Y MÔR AWEL Y MÔR – YMATEB FFURFIOL I'R YMGYNGHORIAD CYN YMGEISIO STATUDOL

Cyflwynodd swyddogion cynllunio Fferm Wynt Ar y Môr Awel Y Môr - Prosiect Isadeiledd Sylweddol Cenedlaethol a'r Ymateb i Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Statudol.

Nododd swyddogion fod Cyngor Sir Ddinbych wedi cael gwahoddiad i ymateb i'r ymgynghoriad cyn ymgeisio ar y Fferm Wynt Ar y Môr Awel Y Môr arfaethedig yn Llanelwy. Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 31 Awst a byddai'n rhedeg tan 11 Hydref 2021. Mae'r adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth aelodau i gyflwyno ymateb ymgynghori ffurfiol i'r ymgynghoriad cyn ymgeisio ar ran y Cyngor.

Agorodd y cadeirydd drafodaethau a gwahoddod aelodau lleol i godi materion cyn caniatáu i aelodau'r pwyllgor godi unrhyw faterion.

Diolchodd y Cynghorydd Barry Mellor (aelod lleol) i'r cadeirydd am ganiatáu iddo siarad. Roedd y prif bryder ar gyfer y datblygiad fferm wynt arfaethedig yn ymwneud yn bennaf â'r ceblau a fyddai'n rhedeg trwy'r cynllun Amddiffyn Rhag Llifogydd Prestatyn arfaethedig a byddai dau floc concrit mawr yn cael eu hadeiladu ar Gwrs Golff y Rhyl, hwn oedd cynllun datblygu A ar gyfer y ceblau ar y cwrs golff.

Fodd bynnag, nododd y Cynghorydd Mellor fod yna gynllun B a fyddai'n drilio o dan y cwrs golff a'r cynllun amddiffyn rhag llifogydd arfaethedig ac y byddai'r blociau concrit yn cael eu hadeiladu ar ochr arall y ffordd i'r cwrs golff. Credwyd mai'r opsiwn hwn oedd y datrysiad gorau. Amlygodd yr aelodau lleol, pe bai cynllun A yn cael ei ddatblygu, y byddai'n debygol o beri i'r cwrs golff gau gan y byddai llawer o'r

ffyrdd teg yn cael eu hadeiladu. Caeodd y Cynghorydd Mellor ei ddatganiad trwy bledio ar aelodau i gwblhau'r ymgynghoriadau cyn 11eg Hydref.

Siaradodd y Cynghorydd Brian Jones, ar ran yr aelod lleol y Cynghorydd Tony Thomas, cytunodd yn llawn â sylwadau a godwyd gan y Cynghorydd Barry Mellor. Yn wreiddiol, roedd y Cynghorydd Jones yn gefnogol i'r prosiect ond ers cyfarfod ag RWE Renewables a'i bartneriaid â'r datblygwyr, a'u natur betrusgar o rannu gwybodaeth am y datblygiad, nid oedd yn gefnogol i'r prosiect mwyach.

Teimlai'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill fod angen cryfhau'r geiriad o fewn yr ymateb mewn perthynas â 'Chynllun A' i nodi na fyddai'r Cyngor yn cefnogi unrhyw brosiect a fyddai'n cael effaith niweidiol ar safle masnachol a oedd yn bodoli eisoes. Cytunodd y Cynghorydd Joan Butterfield yn gryf â chryfhau'r geiriad.

Roedd y Cynghorydd Emrys Wynne, yn cytuno'n gryf â'r holl sylwadau blaenorol a godwyd, cododd sut roedd ganddo bryderon gyda'r ceblau yn rhedeg trwy lwybrau cyhoeddus. Roedd am sicrhau na fyddai'r Cyngor yn colli'r hawliau i'r llwybrau troed hyn.

Diolchodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies i'r cadeirydd am y cyfle i siarad, cefnogodd yn llawn sylwadau a godwyd yn flaenorol gan aelodau. Amlygodd wall ym mhapurau'r ymgeiswyr, yng Nghefn Meiriadog oedd yr is-orsaf genedlaethol ac nid ym Modelwyddan. Roedd y cynlluniau hefyd yn dangos datblygiad is-orsaf newydd yng Nghefn Meiriadog a oedd ar safle gwyrdd amaethyddol. Ni allai'r Cynghorydd Lloyd Davies ddeall pam na allai'r is-orsaf gael ei hadeiladu wrth yr is-orsaf a oedd yn bodoli eisoes ar gyfer y datblygiadau ar y môr eraill.

Diolchodd y Swyddog Cynllunio Denise Shaw i'r aelodau am y sylwadau am yr ymgynghoriad a'u pryderon gyda'r datblygiad. Byddai'r gwaith adeiladu concrit arfaethedig yn cael effaith ar y cwrs golff a byddai'n cael ei nodi yn yr ymateb. Holodd swyddogion hefyd a oedd gan aelodau unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r compownd adeiladu a fyddai gerllaw i'r cwrs golff ac a allai hefyd gael effaith ar y cwrs golff. Byddai'r sylwadau ar yr is-orsaf yn cael eu cynnwys yn ymateb y Cyngor. Gwnaeth swyddogion y pwyllgor yn ymwybodol bod Cynghorau cyfagos eraill eisiau ysgrifennu ymateb ar y cyd i'r ymgynghoriad, ac roedd swyddogion eisiau gwybod beth oedd yr aelodau'n teimlo am y mater.

Cytunodd aelodau'r pwyllgor ar y cynnig o ymateb ar y cyd, ac roeddent yn gwrthwynebu'r compownd adeiladu yn gryf gan ei fod hefyd yn cael effaith ar y cwrs golff. Holodd yr aelodau hefyd pa bwerau oedd gan y Cyngor i'r mater yn gyfreithiol o ran cynllunio gan fod y papurau'n ymddangos yn amwys ar y mater. Byddai'r arweinydd tîm - tîm lleoedd, yn edrych yn fanylach ar y mater ac yn ymateb i'r aelodau.

Diolchodd swyddogion eto i'r aelodau am eu mewnbwn ar y mater, a holi beth oedd y mecanwaith gorau ar gyfer yr ymateb y cytunwyd arno. Cytunodd y pwyllgor y dylai'r ymateb gael ei gytuno gan aelodau lleol a chadeirydd y pwyllgor. Cytunwyd hefyd bod y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies hefyd yn cael copi o'r ymateb. Holodd yr aelodau a ellid cynnwys llythyr eglurhaol gan y prif weithredwr gyda'r

ymateb, ymatebodd swyddogion drwy hysbysu'r pwyllgor y byddent yn codi'r mater gyda'r prif weithredwr.

Cynigiodd y Cynghorydd Brian Jones yr ymateb statudol, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Mark Young.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Cynllunio yn cytuno ymateb i'r Ymateb i Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Statudol gan gynnwys y sylwadau uchod.

9 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR DDINBYCH 2006 - 2021: ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2021

Ar y pwynt hwn, datganodd y Cynghorydd Tina Jones gysylltiad sy'n rhagfarnu gan ei bod yn berchen ar ddarn o dir yn y Cynllun Datblygu a gadawodd y cyfarfod.

Cyflwynodd y Swyddog Cynllunio Gynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 - 2021: Adroddiad Monitro Blynyddol Drafft 2021

Cyflwynwyd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 - 2021: Adroddiad Monitro Blynyddol 2021 ar ffurf Drafft, yn atodiad 1 oherwydd bod y swyddog yn aros am y cyfieithiad Cymraeg, ac i orffen cynllun y ddogfen i gydymffurfio â'r meini prawf hygyrchedd i'w cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Mae Adroddiadau Monitro Blynyddol yn adnodd buddiol i asesu pa mor effeithiol y mae polisi lleol yn cefnogi Strategaeth ac Amcanion y CDLI, a osodwyd i gyflawni Gweledigaeth y CDLI o sut y dylai Sir Ddinbych fod yn 2021. Mae Adroddiad Monitro Blynyddol 2021 yn trafod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, a dyma'r seithfed dogfen i gael ei chyhoeddi ers mabwysiadu'r CDLI yn 2013.

Amlygodd yr adroddiad y cynnydd o ran gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol, a amlygodd unrhyw heriau yn y CDLI.

Cododd y Cynghorydd Brian Jones, yn yr adroddiad BSC 5 - Cyflwyno'r Safle Strategol Allweddol fod y caniatâd cynllunio amlinellol wedi dod i ben, a'i fod eisiau gwybod beth fyddai'n digwydd gyda'r mater. Eglurodd y swyddogion fod y caniatâd wedi dirwyn i ben, fodd bynnag, roedd y safle'n aros o fewn y CDLI cyfredol, a byddai swyddogion yn trafod y materion gyda'r aelodau trwy'r Grŵp Cynllunio Strategol ar sut i fynd â'r mater ymhellach, a phenderfynu beth sy'n digwydd gyda'r safle.

Holodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies am y llythyr a oedd ynghlwm â'r adroddiad, a'r estyniad i'r CDLI. A oedd y CDLI presennol yn dal i fodoli nes i'r un newydd gael ei greu. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies cadarnhaodd swyddogion y byddai'r CDLI presennol yn parhau nes bod CDLI newydd wedi'i fabwysiadu.

Holodd y Cynghorydd Joan Butterfield a fyddai'r Cyd-Bwyllgorau Corfforaethol yn cael effaith ar yr CDLI. Hysbysodd swyddogion y pwyllgor y byddai cynllun datblygu strategol ar gyfer Gogledd Cymru yn y dyfodol, a fyddai uwchlaw'r CDLI lleol, ond ni fyddai'n cael ei weithredu am nifer o flynyddoedd.

PENDERFYNWYD fod y Pwyllgor Cynllunio yn nodi cynnwys yr Adroddiad Monitro Blynyddol Drafft.

HEN GLWB RYGBI'R RHYL, Ffordd Waen, Rhuddlan, Y RHYL (DIWEDDARIAD)

Hysbysodd y cadeirydd y pwyllgor am gyflwyniad hwyr o fewn sylwadau hwyr y pwyllgor, eglurwyd nad oedd y mater i'w drafod, ond fod diweddariad i'w ddarllen gan y cadeirydd i'r aelodau.

“Byddai aelodau'n cofio bod y cais cynllunio uchod wedi'i ohirio gan y Pwyllgor Cynllunio er mwyn rhoi amser i Weinidogion Cymru ystyried a ddylid galw'r cais i mewn i'w benderfynu gan y Gweinidogion.

Gwybodaeth oedd hon i hysbysu aelodau o benderfyniad Llywodraeth Cymru i alw'r cais cynllunio uchod i mewn i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru. Felly mae'r cais bellach wedi'i gyfeirio at Weinidogion Cymru a fyddai bellach yn gyfrifol am benderfynu ar y cais ac mae'r Cyngor wedi anfon copïau o'r dogfennau cais at Lywodraeth Cymru.

Ar yr adeg hon, roedd Swyddogion yn aros i Lywodraeth Cymru benderfynu a oedd y cais i gael ei benderfynu trwy'r broses Sylwadau Ysgrifenedig, neu drwy Wrandawriad."